Cymer, Iesu, fi fel 'rydwyf

Caneuon Ffydd: Rhif 494

Cymer, Iesu, fi fel 'rydwyf,
fyth ni allaf fod yn well;
d'allu di a'm gwna yn agos,
f 'wyllys i yw mynd ymhell:
yn dy glwyfau
bydda' i'n unig fyth yn iach.

Mi ddiffygiais deithio'r crastir
dyrys, anial wrthyf f'hun;
ac mi fethais â choncwerio,
o'm gelynion lleiaf, un:
mae dy enw
'n abl i beri i'r cryfaf ffoi.

Gwaed dy groes sy'n codi i fyny
'r eiddil yn goncwerwr mawr;
gwaed dy groes sydd yn darostwng
cewri cedyrn fyrdd i lawr:
gad im deimlo
awel o Galfaria fryn.

WILLIAM WILLIAMS, 1717–91

MYFYRDOD

A gofiwch chi fod mewn gwasanaeth cymun a'r gweinidog yn rhoi gwahoddiad i bawb sydd yn caru'r Arglwydd Iesu Grist i gydgymuno wrth y bwrdd, ac yna'n nodi nad am ein bod yn caru yr Arglwydd ddigon, ond am yr hoffem ei garu yn well, nad am ein bod yn gryf, ond am ein bod yn wan, y down ato ef i gael ein nerthu? Mynegi'r un teimladau a wna Williams yma gan wybod mor wan ac annigonol y gallwn i gyd deimlo ar brydiau. Ond fe ŵyr Williams yn iawn nad amser sydd ei angen ar y rhai sydd yn teimlo'n annigonol, amser i wella eu buchedd a'u hymarweddiad,

'fyth ni allaf fod yn well', meddai. Nawr yw'r amser inni ein rhoi ein hunain i'r Arglwydd, nid pan fyddwn yn llai prysur neu wedi cyrraedd rhyw nod mewn bywyd, wedi darfod yn y coleg, wedi setlo i lawr i fagu teulu, wedi magu'r plant, wedi ymddeol, wedi . . . ! Nid yw'r amser hwnnw fyth yn dod: 'Cymer, Iesu, fi [yn awr] fel 'rydwyf'.

Ceir mynegiant o'n methiant yma hefyd – methu â choncwerio'r un gelyn a diffygio 'teithio'r crastir dyrys, anial wrthyf f'hun'. Addefiad sydd yma o'n hawydd am gymorth yn ein gwendid, ac mae Duw yn gaddo cymorth i'r rhai sydd yn galw arno – 'cymorth parod mewn cyfyngder'(Salm 46:1). Eto, un peth yw addef gwendid a chynnig cymorth, ond mae'n rhaid bod yn gwybod ym mhle yn union y mae'r cymorth hwnnw ar gael, gwybod ble i droi. 'Gwaed dy groes sy'n codi i fyny', meddai Williams wrthym wedyn yn ei bennill olaf, a chyda hynny cawn wybod ym mhle yn union y mae'n cymorth i'w gael. 'Y mae gennyf gryfder at bob gofyn trwy yr hwn sydd yn fy nerthu i', meddai Paul yn Philipiaid 4:13, a gwyddai yn iawn am ei wendid ei hun.

Ar ddechrau dydd cofiwch eich atgoffa eich hunain gyda'r datganiad adnabyddus hwn a chofio am y cryfder sydd ar gael inni yn yr Arglwydd Iesu: 'Does dim all ddod ar fy nhraws i heddiw, Arglwydd, na allwn ni, ti a minnau gyda'n gilydd, ddelio efo fo.' Mynnwn ddefnyddio ei rym ef i weithredu ac i fod ar ein gorau. Mae Duw wastad yn barod i droi ein hymdrechion gwael ni yn rhai gwerthfawr ac i wneud ein gorau ni hyd yn oed yn well, cyn belled â'n bod yn ymddiried ynddo ac yn defnyddio ei adnoddau ef sydd ar gael inni.

GWEDDI

O Dad, rwyt ti'n rhoi dy adnoddau dy hun at fy nefnydd; mae gwaed y groes yn abl i'm codi i fyny. Helpa fi i ddibynnu ar yr adnoddau hynny mewn gweddi wrth wynebu pob sefyllfa, ac nid ar fy adnoddau gwael i fy hunan. Yn enw Iesu. Amen.